Teitl: **Peiriannydd (Dylunio - Gwasanaethau Adeiladu Mecanyddol)**

Lleoliad: **Ystwyth**

Cyfarwyddiaeth: **Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol**

Rhif y Swydd: **BG14517**

Cyflog: **Gradd 8 (£36,298- £40,478 y flwyddyn)**

Oriau: **37 awr yr wythnos**

Contract: **Parhaol**

Crynodeb Swydd

Darparu gwasanaethau Dylunio Mecanyddol ar gyfer prosiectau cyfalaf pensaernïol mawr ac adnewyddu o fewn yr Awdurdod a Phartneriaid eraill sy'n gweithio ar y cyd.

Hysbyseb Lawn

Mae swydd barhaol wedi codi o fewn yr Is-adran Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer unigolyn profiadol a brwdfrydig i ymuno â'r Tîm.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu arbenigedd yr adran mewn dylunio ar gyfer cyflawni prosiectau cyfalaf pensaernïol mawr ac adnewyddu o fewn yr Awdurdod a Phartneriaid eraill sy'n gweithio ar y cyd, ym maes gwasanaethau adeiladu mecanyddol.

Bydd y rôl yn cynnwys cysylltu a chyfathrebu'n agos â'r tîm dylunio, y tîm adeiladu a chleientiaid allanol i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n effeithiol o fewn terfynau amser a chyllidebau cyfyngedig. Bydd yn cynnwys darparu dyluniadau llawn ar gyfer gwasanaethau adeiladu mecanyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni prosiectau adeiladu.

O bryd i'w gilydd bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cynorthwyo i reoli profion statudol ar gyfer y portffolio eiddo i sicrhau bod yr holl brofion angenrheidiol yn cael eu cynnal ar yr adegau gofynnol.

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

Dyddiad Cau: **15/06/2023**

Dyddiad Cyfweliad: **I'w gadarnhau**